

## **Ymateb Cymdeithas yr Iaith i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy**

### **Cyflwyniad**

Mae Cymdeithas yr Iaith yn fudiad sy'n ymgychu'n ddi-drais dros y Gymraeg a holl gymunedau Cymru.

Rydyn ni'n cytuno gydag Amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, fel mae'r ymgynghoriad yn ei nodi mae angen lliniaru newid hinsawdd ac addasu i'r newidiadau i'r hinsawdd, ac mae rhan gan bob sector ei chwarae, gan gynnwys y sector amaeth. Mae'n allweddol er hynny nad yw'r pwyslais ar y sector amaeth, sydd eisoes yn rhoi mesurau ar waith i leihau ei effaith ar yr amgylchedd.

Er mai Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n cael ei gyflwyno, yn anffodus, nid yw'n mynd i'r afael â chynladwyedd na chryfhau y diwydiant ei hun a'n cymunedau gwledig. Mae datblygu cynaliadwy'n golygu dysgu sut i fyw o fewn terfynau adnoddau cyfyngedig y Ddaear ar yr un pryd â chadw adeiledd ein cymdeithas a'i wella. Ni ellir diystyru cynladwyedd y diwydiant a chymunedau.

Mae adran 2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi bod datblygu cynaliadwy yn cynnwys gwella llesiant diwylliannol y wlad:

*"Yn y Ddeddf hon, ystyr "datblygu cynaliadwy" yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (gweler adran 5), gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant (gweler adran 4)."*

Credwn fod rhai sectorau economaidd yn allweddol i gynladwyedd ein cymunedau Cymraeg ac sydd â'r potensial i gyfrannu tuag at greu cymunedau hyfyw i'r dyfodol. Un o'r sectorau allweddol hynny yw amaethyddiaeth, ond mae'n un a welodd wasgfa sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r wasgfa hon wedi cyfrannu at ddiboblogi ein cymunedau gwledig a newid patrwm cymdeithas.

Mae bron i 20% o ffermydd gwartheg a defaid mewn Ardaloedd Llai Ffafirol ac oddeutu 17% o ffermydd defaid a gwartheg yn methu â gwneud elw. Yn gyffredinol methodd 19% o holl ffermydd Cymru â gwneud elw yn 2014–15.

Er hynny, mae pris tir yn uchel iawn ac does dim cyswllt rhyngddo a'r incwm y gall ei gynhyrchu.

Nid yn unig ei bod yn anodd i ffermwyr greu bywoliaeth ar ffermydd sydd eisoes yn weithredol, ond o ganlyniad, mae'n anodd i bobl ifanc gychwyn yn y diwydiant amaethyddol. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid iddynt adael y diwydiant a'u cymunedau er mwyn dod o

hyd i waith, sy'n gyrru allfudo, sydd yn ei dro yn niweidiol i'r iaith.

Mae'n gynyddol anodd i ffermydd gynnal bywoliaeth. O sgysiau mae'r Gymdeithas wedi'u cael ag amaethwyr, mae'n glir bod ymdeimlad a phryder ymhlith gweithwyr yn y sector bod Llywodraeth Cymru yn gweithio yn eu herbyn, a bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn fwrn pellach.

Mae cred cyffredinol yn y diwydiant amaeth bod diffyg dealltwriaeth ac ymwneud â'r diwydiant ymhlith y rhai sy'n llunio polisi amaeth yn y gwasanaeth sifil. Mae hyn yn bryder enfawr o ystyried sgôp ac uchelgais y Cynllun. Mae'r Gymdeithas eisoes wedi mynegi pryder am gynrychiolaeth a dealltwriaeth o fewn adrannau eraill o'r weinyddiaeth sifil, yn fwyaf penodol ym maes [polisi tai](#).

Mae'r ffeithiau yn amlgu'r angen dybryd am weithredu, gan edrych ar y darlun llawn o anghenion ein cymunedau a chefnogi'r diwydiant amaeth fel rhan o'n cymunedau ehangach.

## Cwestiynau

### **C1. Bydd y Cynllun yn cefnogi ein sector amaethyddol i'r tymor hir i ymateb i heriau ac anghenion sy'n newid, gan gyfrannu at yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Yn eich barn chi, beth all gryfhau'r gefnogaeth hon?**

Mae nifer o elfennau ar goll o'r Cynllun fel ag y mae felly. Does dim ynddo i hwyluso nac annog pobl ifanc i aros yn y diwydiant na chreu gwaith na gwell cyflogaeth. I'r gwrthwyneb, mae lle i gredu y byddai swyddi'n cael eu colli, mae dogfen Effeithiau economaidd posibl y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn nodi bod amcangyfrifon yn awgrymu y bydd gostyngiad o 11% o Ofynion Safonol o Lafur ar ffermydd.

Does dim byd i ddatblygu'r economi na chefnogaeth i amaethwyr i gynhyrchu bwyd er mwyn bod yn llai dibynnol ar system taliadau yn y Cynllun chwaith.

Mae papur gan y Gymdeithas o 2016, [Iaith a Gwaith](#), yn ymwneud â chreu economi gryf sydd â'r Gymraeg a chymunedau yn rhan greiddiol ohoni. Mae'n adnabod pwysigrwydd y sector amaeth ac yn cyflwyno rhai argymhellion penodol ar gyfer y diwydiant yn amrywio o wneud cysylltiad rhwng amaeth a sectorau eraill, fel twristiaeth a hamdden awyr agored. Mae hefyd yn argymhell sefydlu corff datblygu economaidd i weithredu pecyn o gynlluniau a fydd â'r Gymraeg yn rhan greiddiol ohono i fod yn gyfrifol am ddatblygu economaidd ar hyd y Gorllewin ynghyd â rhai rhaglenni cenedlaethol o blaid y Gymraeg.

Byddai hyn yn cryfhau diwydiannau sy'n gysylltiedig ag amaeth yn anuniongyrchol ac yn golygu bod ffermwyr yn llai dibynnol ar y system taliadau.

Mae ffermwyr eisoes yn dibynnol ar y system taliadau, bydd dibyniaeth bellach trwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn golygu bod y diwydiant yn llai cynaliadwy at y dyfodol.

Does dim sylw i'r posibilrwydd y bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn golygu na all nifer o ffermydd barhau fel mentrau teuluol, ac effaith colli diwydiant sydd â chanran sylweddol o siaradwyr Cymraeg ac sy'n ddiwydiant allweddol yn nifer o gadarnleoedd y Gymraeg.

Mae canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn dangos bod y Gymraeg ar ei chryfaf mewn ardaloedd gwledig, mae [Adroddiad Sicrwydd CFFl Cymru](#) yn datgan bod 60% o'r aelodau yn siarad Cymraeg.

Mae Aseiad Effaith Integredig y Cynllun ei hun yn dangos mai'r sector amaethyddiaeth (gan gynnwys pysgota a choedwigaeth) sydd â'r gyfran fwyaf o weithwyr Cymraeg eu hiaith yng Nghymru, sef 43%. Mae'r ganran mor uchel ag 88% yng Ngwynedd, 21% ym Mhowys a 73% yng Ngheredigion.

Mae canran y gweithwyr amaeth sy'n siarad Cymraeg yn sylweddol uwch na chanran y gweithwyr sy'n siarad Cymraeg ym mhob diwydiant arall yn siroedd Ceredigion, Sir Gâr, Sir Benfro, Conwy, Dinbych, Gwynedd, Môn, Sir Fflint, Abertawe, Castell-Nedd Port Talbot a Merthyr.

Rhaid hefyd ystyried gwerth y diwydiant amaeth i ddiwydiannau gwledig cysylltiedig ac effaith crebachu'r diwydiant amaeth ar swyddi, yr economi, y Gymraeg a'n cymunedau.

Does dim dwywaith bod y diwydiant amaeth yn bwysig i'r Gymraeg felly a bod yn rhaid i'r Gymraeg ac felly cynaladwyedd ein cymunedau fod yn greiddiol i unrhyw gynllun yn ymwneud â chynaliadwyedd y diwydiant.

Mae newid hinsawdd yn argyfwng i'r blaned, a dylai fod yn flaenoriaeth uchel. Mae angen gweithredu brys i ddelio â chyfraniad Cymru, ynghyd â'n heffaith ar allyriadau gweddill y byd, tuag at yr her fyd-eang hon. Mae angen i ffermio chwarae rhan yn hyn, ond mae angen i bob sector gymryd cyfrifoldeb. Ni ellir dibynnu ar y diwydiant amaeth i wneud rhan helaeth y gwaith.

Mae tir eisoes yn cael ei brynu gan gwmnïau mawr ariannog mewn ardaloedd o Gymru er mwyn plannu coed. Unig fwriad hynny yw i gwmnïau mawr frolio eu bod yn 'gwrthbwysu' eu hallyriadau carbon. Ni ddylid caniatáu hyn i ddiwydd.

Dydy'r math yma o amgylcheddiaeth gorfforaethol ddim yn poeni dim am bobl gyffredin na'r Gymraeg ac ar ei gwaethaf, dyma amgylcheddiaeth gwyrdd-galchu.

Mae perygl gwirioneddol y bydd mwy o ffermydd yn cael eu colli, gan eu bod yn methu cynnal bywoliaeth ac y gallai cwmnïau fanteisio ar hynny a'i brynu fel tir ar gyfer plannu coed.

Tueddiad arall sydd yn gyrru newid hinsawdd ac yn torri cysylltiad â'r tir yw'r tueddiad i ffermydd orfod tyfu er mwyn cynnal bywoliaeth.

Mae nifer o ffermwyr wedi adrodd y gallai cynigion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy leihau incwm posibl fferm o golli tir, gan ei gwneud yn amhosibl cynnal rhai ffermydd bach ar y raddfa bresennol. Canlyniad posibl hynny fyddai ffermydd mwy o faint fydd yn cynhyrchu bwyd ar raddfa lawer ehangach, fel sydd wedi digwydd yn Seland Newydd. Mae ffermydd sy'n cynhyrchu ar lefel ddwys yn llawer gwaeth i'r amgylchedd, i les anifeiliaid ac i'r bobl sy'n gweithio ar y ffermydd hynny.

Perygl arall posibl fyddai i ffermydd ganolbwyntio yn fwyfwy ar un cnwd neu un da byw er mwyn cynyddu elw, gan leihau bioamrywiaeth ymhellach.

Canlyniad posibl arall fydd mewnforio mwy o gynnyrch. Nid yw'r gofynion llymach ar

ffermwyr ychwaith yn cyd-fynd gyda pholisi mewnfurio bwyd y Deyrnas Gyfunol, sydd, ers gadael yr Undeb Ewropeaidd, wedi caniatáu mewnfurio bwyd o wledydd â safonau amaethyddol ac amgylcheddol llawer gwannach sy'n gallu cynhyrchu bwyd yn llawer rhatach. Effaith hyn yw i danseilio cynhyrchiant bwyd domestig.

Mae bod yn ddibynol ar gynnyrch o wledydd eraill â'r perygl hefyd o greu mwy o allyriadau, yn ogystal â chreu economi sy'n ddibynol ar fewnforion.

Nodwn fod adroddiad [“Cymru Can”](#) gan Gomisynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn pwysleisio pwysigrwydd darparu bwyd wedi ei gynhyrchu'n lleol i bobl Cymru, a bod y bwyd hwnnw wedi ei gynhyrchu mewn modd sy'n gynaliadwy ac yn cynnwys elfen gymunedol gref:

*“Mae ar Gymru angen cynllun gwydn, hirdymor sy'n symud effaith amaethyddol tuag at gael canlyniad cadarnhaol ar adfer hinsawdd a natur, gan sicrhau dietau diogel, fforddiadwy ac iach i bobl, yn enwedig plant. Mae cymunedau gwledig a ffermio yn rhan fawr o'r ateb – maen nhw'n rhan annatod o fwydo Cymru, gwarchod byd natur ac yn rhan o'n diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu. Rhaid i wasanaethau cyhoeddus ddefnyddio eu hysgogwyr ar gyfer newid, er enghraifft, gwneud mwy i hwyluso tyfu cymunedol a defnydd cynaliadwy o dir, ystyried goblygiadau ehangach penderfyniadau cynllunio ar gymunedau a natur, darparu fframwaith cymorthdaliadau a grantiau ffermio a deall yr effaith leol a byd-eang o wariant ar fwyd”.*

Dydy ffermwyr ddim yn cael gwerth eu harian am gynnyrch ar y cyfan gan fod yr holl rym i osod pris gan y prynwyr, a gallant wasgu yn gynyddol ar amaethwyr.

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ymwneud yn llwyr â rheoleiddio'r diwydiant amaeth yn hytrach na'r sector fwyd ac yn rhoi'r cyfrifoldeb dros gynaliadwyedd y sector cynhyrchu bwyd ar ffermwyr yn unig. Dydyn ni ddim yn ymwybodol bod bwriad rhoi mesurau ar archfarchnadoedd.

Byddai rhain oll yn ganlyniadau anffodus a fyddai'n gweithio yn erbyn bwriad ac ethos y Cynllun.

Ni welwn unrhyw gyfeiriad at hyn yn yr ymgynghoriad.

**C17. Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol [y mater dan sylw, argymhelliad, opsiwn, cynnig, polisi, deddfwriaeth ayb] ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?**

**Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae Asesiad Effaith Integredig y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dangos yn glir bwysigrwydd y diwydiant amaeth i'r Gymraeg, ac fel i ni nodi, rhaid i barhad y diwydiant, y Gymraeg a'n cymunedau fod yn ystyriaeth greiddiol i gynaliadwyedd.

Mae awgrymu bod ffermwyr yn mynd i ymwneud â'i gilydd yn fwy yn sgil y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn or-ddweud. Mae ffermwyr eisoes yn ymwneud â'i gilydd yn rheolaidd ac yn hollol naturiol trwy'r Gymraeg.

**C18. Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu [y mater dan sylw, argymhelliad, opsiwn, cynnig, polisi, deddfwriaeth ayb] er mwyn sicrhau:**

- **ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; a**
- **nad yw'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?**

Fel y nodwyd eisoes, mae'r diwydiant amaeth yn allweddol i barhad y Gymraeg felly mae'n rhaid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy sicrhau cynaladwyedd y diwydiant trwy greu amodau ffafriol i bobl ifanc allu aros i weithio a byw yn ein cymunedau a thryw dyfu'r economi.